**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **28 MEDI 2009** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 AWST 2009** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o'r 1af Mehefin 2009 hyd at 31ain Awst 2009.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y 3 mis hyd at 31ain Awst 2009:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol am Archwiliadau a Gynlluniwyd | 19 |
| Archwiliad Ymatebol | 1 |
| Adroddiadau eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31ain Awst 2009, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Adnoddau | Dyletswyddau Llywodraethwyr (Ysgolion Cynradd) | B | Atodiad 1 |
| Addysg | Consortiwm Addysg | Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru | B | Atodiad 2 |
| Addysg | Ysgolion | Rheolaeth Gyllidebol mewn Ysgolion Cynradd | B | Atodiad 3 |
| Addysg | Ysgolion | Gosodiadau Ysgolion Cynradd | B | Atodiad 4 |
| Corfforaethol | | Rheolaeth Corfforaethol - Trefniadau Awdurdodi Swyddogion | B | Atodiad 5 |
| Cyllid | Archwilio a Risg | Trefniadau Yswiriant | B | Atodiad 6 |
| Cyllid | Ariannol | Taliadau Ysgolion Uwchradd | C | Atodiad 7 |
| Cyllid | Cyfrifeg | Effeithlonrwydd y Strwythr Codio | B | Atodiad 8 |
| Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | Trefniadau Cychwyn, Addasiadau a Therfynu Gweithwyr | B | Atodiad 9 |
| Darparu a Hamdden | Arlwyo | Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc | C | Atodiad 10 |
| Darparu a Hamdden | Hamdden | Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon | B | Atodiad 11 |
| Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | Cartref Henoed Cefn Rodyn, Dolgellau | C | Atodiad 12 |
| Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf | B | Atodiad 13 |
| Economi a Chymuned | Hyfforddiant Gwynedd | Gweinyddiaeth a Rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd | B | Atodiad 14 |
| Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | Rheolaethau yn Erbyn Meddalwedd Faleisus | B | Atodiad 15 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | Anabledd Dysgu - Gofal Dydd Preifat | B | Atodiad 16 |

| ADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | Cynllunio | Cynllunio - Gorfodaeth | B | Atodiad 17 |
| Strategol a Gwella | Cyfeiriad Strategol | Allbwn Prosiectau Ymchwil | B | Atodiad 18 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | Ar draws yr adran | Cynllun Gorsaf Rheilffordd Bangor | Dim Categori | Atodiad 19 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn:

- Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (*Addysg*)

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL YR ADRODDIAD | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | **Derbyniol** |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru - Gwasanaeth Twneli | Asiantaeth Cefnffyrdd | | **Derbyniol** |
| Cydymffurfiaeth â Rheoliadau CDM | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Adeiladau ac Amgylcheddol | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2009**
Cyfrifiaduron Arunig
Defnydd Is-Gontractwyr

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2009**
System Dyledwyr - Trefniadau Atal Biliau
Trwyddedau Adeiladwaith ar y Stryd
Rheolaeth Cytundeb Pryd ar Glud

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2009**
Trwyddedau Meddalwedd mewn Ysgolion

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2010**
Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa
Taliadau Ysgolion Uwchradd
Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2010**
Cartref Henoed Cefn Rodyn, Dolgellau

## 2.4 Archwiliad Ymatebol

2.4.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol i orwariant ar gyllideb Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad a gynhyrchwyd wedi ei gynnwys fel Atodiad 20.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1af Medi 2009.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Cynnal Tiroedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Rheolaeth Cyfluniad *(Gofal Cwsmer)*
- Cynnal a Chadw Tai Cyngor - Llif Gwaith *(Tai)*
- Canolfan Denis Arfon *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Dwyfor *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Penllyn *(Darparu a Hamdden)*
- Adolygiad o drefniadau gwerthuso PQQ *(Tai)*
- Cronfeydd Answyddogol *(Addysg)*
- Praeseptau *(Cyllid)*
- Plas Maesincla, Caernarfon *(Darparu a Hamdden)*
- Llwybrau Cyhoeddus *(Rheoleiddio)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol *(Corfforaethol)*
- Llywodraethu Corfforaethol - Adolygiad Cymharol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Bondiau Perfformiad *(Corfforaethol)*
- Telerau Contractau a Dogfennau Tendro *(Corfforaethol)*
- Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Gorchmynion Ffyrdd *(Rheoleiddio)*
- Addysg All-Sirol - Trefniadau Anfonebu *(Cyllid)*
- Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 *(Addysg)*
- Grant Cymorth i Benaethiaid Mewn Ysgolion Bach *(Addysg)*
- Plas y Don, Pwllheli *(Darparu a Hamdden)*
- Plas Hedd, Bangor *(Darparu a Hamdden)*
- Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Taliadau Dewisol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Eithriadau, Tai gwag ayb *(Cyllid)*
- Gweithredu'r Adolygiad Tâl Lleol *(Cyllid)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Trysorlys - Strategaeth Newydd *(Cyllid)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Sieciau *(Cyllid)*
- Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru *(Strategol a Gwella)*
- Cytundebau Adran 106 *(Rheoleiddio)*
- Ysgolion Cynradd - Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw *(Addysg)*
- Pwll Nofio Bangor *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Plas Ffrancon *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Bro Dysynni *(Darparu a Hamdden)*
- Yr Hafan, Pwllheli *(Economi a Chymuned)*
- Gwasanaeth Morwrol *(Economi a Chymuned)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Eiddo Gwasanaethau Darparu - Comisiynu Gwaith *(Darparu a Hamdden)*
- Plant - Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Gofal *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Diogelwch Asedau a Storfeydd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

- Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Grant "Independence and Wellbeing" *(Strategol a Gwella)*
- Cyfrifon Terfynol: Tai *(Tai)*
- Dilyniant - Rheolaeth Cytundeb Pryd ar Glud *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Dilyniant - System Dyledwyr - Trefniadau Atal Biliau *(Cyllid)*
- Dilyniant - Costau Gweithwyr Cefnogol *(Gwasanaethau Cymdeithaso)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1af Mehefin 2009 i 31ain Awst 2009, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# DYLETSWYDDAU LLYWODRAETHWYR (YSGOLION CYNRADD)
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd Gwynedd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â gofynion statudol, a chyfarwyddiadau Llywodraethwyr Cymru ac Estyn.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewiswyd sampl o Ysgolion Cynradd yng Ngwynedd i'w harchwilio.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 18 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 10 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oedd gan pob ysgol ffurflen buddiant cyfredol ar gyfer pob aelod o'u corff llywodraethu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithrediad dyletswyddau llywodraethwyr ysgolion cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Byddai'n ymarfer da pe byddai ysgolion yn cynnwys yr holl wybodaeth mae 'Llawlyfr Llywodraethwyr Gwynedd' yn ei argymell y dylid ei gynnwys mewn llawlyfr ysgol.**
- **Byddai'n ymarfer da pe byddai ysgolion yn cynnwys yr holl wybodaeth mae 'Llawlyfr Llywodraethwyr Gwynedd' yn argymell y dylid ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i rieni.**
- **Os yw ysgol yn rhagweld byddent yn brin o lywodraethwyr, mae angen iddynt geisio recriwtio cyn gynted â phosib.**
- **Dylid sicrhau bod gan pob ysgol ffurflen buddiant cyfredol i bob aelod o'r corff llywodraethu a dylid eu diweddaru'n flynyddol drwy ddosbarthu'r ffurflenni yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn.**
- **Dylai cyrff llywodraethu adolygu y ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol.**
- **Yn lle bod yr ysgolion yn rhannu y dogfennau allan i'r llywodraethwyr, argymhellir bod y Gweinyddwraig Addysg yn anfon popeth yn uniongyrchol i'r llywodraethwyr yn hytrach na thrwy'r ysgolion, neu os nad yw hyn yn ymarferol awgrymir bod yr pamffledi rhaglenni hyfforddiant o leiaf yn cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r llywodraethwyr gan y Gweinyddwraig Addysg.**
- **Byddai'n ymarfer da pe byddai'r Gweinyddwraig Addysg yn ysgrifennu at lywodraethwyr newydd sydd heb fynychu cwrs anwytho, neu unrhyw gwrs perthnasol arall, er mwyn ceisio eu hannog i wneud hynny.**

## GRANT YSGOLION BRO LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
## Addysg

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian 2008/09 'Grant Ysgolion Bro'.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod arian y grant yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas a nodir yng nghylchlythyr cyfarwyddid y Llywodraeth Cynulliad Cymru ddyddiedig Medi 2005 ac a nodir yn nhelerau ac amodau safonol grant 2008/09.
- Fod trosglwyddiadau o'r arian grant a wneir i'r ysgolion wedi eu trin yn gywir.
- Fod dogfennaeth briodol yn cael eu cyflwyno/eu cadw gan yr ysgolion i gefnogi'r gwariant.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oes fyth drefn bendant yn ei le er mwyn sicrhau bod dogfennaeth briodol yn bodoli gan yr ysgolion i gefnogi pob trosglwyddiad a wneir o arian y grant.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth arian grant Ysgolion Bro gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen sicrhau fod rhywun yn gwirio fod y ddogfennaeth briodol yn cael ei gadw i gefnogi pob trosglwyddiad o arian 'Grant Ysgolion Bro', boed hynny drwy fod swyddog yn ymweld â phob ysgol i sicrhau fod y dystiolaeth yn cael eu cadw ar ffeil neu fod yna drefn lle na thelir unrhyw gais heb fod y dystiolaeth briodol yn cael ei hanfon mewn i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg gyda phob cais.**
- **Mae angen gwirio gyda'r ysgol os yw'r oriau yn gywir ac os ydynt, mae angen cywiro'r gor-hawliad a hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r gor-hawliad.**
- **Dylai'r ysgolion anfon mewn i'r Rheolwr Blynyddoedd Cynnar unrhyw ddogfennaeth sydd ganddynt i gefnogi unrhyw wariant a wneir gyda'r elfen gofal plant o'r grant ysgolion bro.**

## RHEOLAETH GYLLIDEBOL MEWN YSGOLION CYNRADD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod trefniadau rheolaeth gyllidebol briodol mewn lle o fewn ysgolion cynradd Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewis sampl o ysgolion o'r tair ardal yng Ngwynedd i wirio os oeddent yn derbyn adroddiadau manwl yn manylu ar sefyllfa ariannol yn erbyn y gyllideb, bod yr ysgolion yn gwneud defnydd ohonynt a bod sefyllfa ariannol yr ysgol yn cael ei gyflwyno a'i drafod gyda'r Llywodraethwyr.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 29 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 12 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Gyllidebol mewn Ysgolion Cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio â safonau Estyn a chynhyrchu Cynllun Datblygu 3 blynedd fras yn ogystal â'r Cynllun manwl blynyddol.**
- **Mae angen sicrhau bod yr Is-bwyllgor Cyllid (lle mae un yn bodoli) neu'r Corff Llywodraethol Llawn, yn trafod a chymeradwyo unrhyw ddefnydd o "Arian Wrth Gefn".**
- **Mae angen sicrhau bod y gyllideb yn cael ei drafod gan y Corff Llywodraethol a bod cofnodion o hyn yn cael eu cymryd fel bod tystiolaeth bod y Corff wedi derbyn neu wrthod y gyllideb.**
- **Mae angen sicrhau bod gan bob ysgol gofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r corff llywodraethol a'r Pennaeth parthed penderfyniadau ariannol, lle mae'r corff llywodraethol wedi cytuno ynghyd â'r Pennaeth ar symiau synhwyrol fel bod y Pennaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau. Ymhellach, bydd angen i'r Pennaeth a Cadeirydd y Llywodraethwyr lofnodi'r ddogfen er mwyn cadarnhau bod y symiau yma wedi ei cytuno.**
- **Dylai Penaethiaid sicrhau eu bod yn adrodd yn rheolaidd i'r Corff Llywodraethol ar berfformiad ariannol yr ysgol ac fe ddylid sicrhau bod cofnodion yn cael eu gwneud o'r cyfarfodydd.**
- **Dylid cynnwys y ddogfen 'Cadw'ch Balans' gan Estyn yn y pecyn anwytho i Penaethiaid newydd.**

# GOSODIADAU YSGOLION CYNRADD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau sy'n ymwneud â gosodiadau mewn ysgolion cynradd yn briodol ac yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion a Chyfarwyddiadau Estyn.

Cwmpas yr Archwiliad
Dewis sampl o ysgolion cynradd yn y 3 ardal, gan ymweld â hwy ac adolygu'r agweddau canlynol:

- Fod y corff llywodraethol yn adolygu ffioedd gosodiadau yn flynyddol.
- Fod cytundebau yn cael eu creu rhwng y llogwr a'r ysgol.
- Fod y llyfr 'Gosodiadau Adeilad TR184' yn cael ei gwblhau'n gyflawn.
- Fod oriau a hawlir gan y gofalwr yn cael eu gwirio yn erbyn y gosodiadau.
- Fod trefn mewn lle o geisio casglu arian gosodiadau cyn dyddiad y gosodiad.
- Fod yr ysgol ddim yn cael ei gosod allan i unrhyw logwr sydd yn ddrwg daliwr.
- Fod y ffioedd cywir yn cael eu codi ar y llogwr.
- Fod defnydd o dderbynebau swyddogol ymhob achos o logi.
- Fod yr arian gosodiadau yn cael ei fancio'n brydlon ac yn syth i goffrau'r Cyngor.
- Fod yr ysgol yn hawlio nawdd cymunedol os yn berthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 11 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 3 o'r meysydd hyn yn unig. Y Prif darganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod hanner yr ysgolion cynradd a archwiliwyd ddim yn gwneud dim defnydd o'r llyfr swyddogol 'Gosod Adeilad' TR184.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gosod Ysgolion Cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai pob ysgol ddefnyddio'r llyfr 'Gosod Adeilad' TR184 wrth osod allan yr ysgol i logwyr a dylid sicrhau fod y llogwyr yn arwyddo'r cytundeb a'i hanfon yn ôl i'r ysgol.**
- **Dylid sicrhau bod arian yn cael ei dderbyn o flaen llaw gan logwyr newydd a dylid ceisio derbyn arian o flaen llaw am osodiadau eraill pryd mae'n ymarferol a realistig i wneud hynny.**
- **Dylid sicrhau bod derbynneb swyddogol yn cael ei roi i logwyr pob amser pan dderbynnir arian incwm gosodiadau ac fe ddylid nodi rhif y dderbynneb a'r swm dalwyd yn y llyfr 'Gosod Adeilad' TR184.**
- **Dylid sicrhau fod holl arian sydd yn ymwneud ag incwm gosodiadau yn cael ei dalu mewn i goffrau'r Cyngor ac nid i gronfeydd ysgolion.**
- **Dylid sicrhau bod ysgolion yn bancio'r incwm o dan y cyfeirebau byr cywir.**
- **Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod pob ysgol yn y sir yn ymwybodol o'r trefniadau hawlio nawdd.**

## RHEOLAETH CORFFORAETHOL – TREFNIADAU AWDURDODI SWYDDOGION Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli yn yr adrannau ar gyfer awdurdodi swyddogion i ymgymryd â dyletswyddau sydd wedi eu dirprwyo i'r penaethiaid yng nghyfansoddiad y Cyngor. Yn arbennig sicrhau bod trywydd archwilio clir ar gyfer yr awdurdodiad.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn adolygu sampl o swyddogaethau ble mae'r penaethiaid wedi awdurdodi swyddog i weithredu ar eu rhan, gan sicrhau fod awdurdodiad priodol gan y pennaeth. Bydd yr archwiliad wedi ei gyfyngu i adolygu penderfyniadau sydd yn effeithio ar hawliau unigolion (e.e. rheolwyr ardal yn rhoi caniatâd cynllunio neu ddirwyon parcio).

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 9 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 5 o'r meysydd hyn, a rheolaeth mewnol boddhaol yng ngweddill y meysydd rheolaeth mewnol.

Gwelwyd mai cymysg yw trefniadau awdurdodi swyddogion ar draws y Cyngor. Mae rhai adrannau yn cwblhau dogfen awdurdodi ffurfiol, eraill yn y broses o adolygu eu trefniadau ac eraill heb ffurfioli'r trefniadau dirprwyo o gwbl. Yn ogystal, gwelwyd fod cynnwys y dogfennau awdurdodi'n amrywio rhwng yr adrannau; byddai'n fuddiol petai dogfen gorfforaethol yn cael ei ymgorffori er mwyn sicrhau cysondeb rhwng yr adrannau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Awdurdodi Swyddogion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu'r cynllun dirprwyo i swyddogion, er mwyn sicrhau fod yr hawliau canlynol wedi eu dirprwyo i'r penaethiaid priodol; yr hawl i erlyn rhiant gan fod plentyn yn methu mynychu'r ysgol a'r hawl i erlyn teithwyr sydd yn meddiannu tir diwydiannol yn anghyfreithlon.**
- **Dylai'r Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Economi a Chymuned gwblhau dogfen awdurdodi ffurfiol yn dilyn dirprwyo dyletswyddau o'r cynllun dirprwyo i swyddogion penodol.**

# TREFNIADAU YSWIRIANT
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yma yw i werthuso'r trefniadau mewn lle ar gyfer yswirio diddordebau y Cyngor ynghyd â'r prosesau ar gyfer delio ag achosion yswiradwy sydd yn codi.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd y polisi yswiriant sydd mewn lle am y cyfnod o 2006 i 2011, ynghyd â sampl o achosion yn 2007/08 a 2008/09.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod yswiriant mewn lle ar gyfer y prif agweddau megis moduron, adeiladau, atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd cyflogwr ac arian. Gwelwyd fod prosesau rhesymol a ffurfiol wedi eu dilyn i benodi cwmnïau yswiriant. Tra'n adolygu achosion a godwyd yn ystod 2007/08 a 2008/09, gwelwyd fod yr Uned Yswiriant yn cynnal ffeil am pob un, a bod y cofnodion oddi fewn i'r ffeiliau hynny yn rhoi darlun cyfan o'r camau wedi eu cymryd gan yr Uned a'r partïon eraill yn ymwneud â'r achosion. Daeth rhai pwyntiau i sylw sydd angen gwella'r trefniadau.

Mae amheuaeth wedi codi nad yw pob achos yswiriadwy yn cael ei dynnu i sylw'r Uned Yswiriant, felly nid yw'r unedau perthnasol yn hawlio'r arian taladwy yn ôl. Mae eraill ble mae'r achosion yn dod i sylw yr Uned Yswiriant, ond nid y cais am ad-daliad. Yn yr amgylchiadau yma, mae unedau busnes yn talu am gyweirio allan o'u cyllideb heb hawlio'r arian yn ôl. Mae hyn yn effeithio eu cyllideb ac yn tanseilio'r symiau premiwm yswiriant y mae'r Cyngor yn eu talu.

Nodwyd rhai gwahaniaethau rhwng cofnodion yr Uned Eiddo o adeiladau'r Cyngor, a rhestr o'r adeiladau wedi eu yswirio. Tynwyd sylw swyddogion yr Uned Yswiriant i'r achosion yma, a cafwyd eu cywiro. Yn sgîl hyn, mae angen i'r Uned adolygu'r dull sydd mewn lle i'w ymwybyddu o'r adeiladau sydd angen eu yswirio gan sefydlu os ydynt yn fodlon y byddai yn cadw eu cofnodion yn gywir a chyfredol, a fod pob adeilad yn cael ei yswirio yn unol â'r disgwyl.

Gan fod rhai hawliadau yn gallu dyddio yn ôl am ddigwyddiadau degawdau yn flaenorol, mae yn angenrheidiol fod y manylion yswiriant perthnasol yn cael eu cadw. Er mwyn ceisio diogelu yn erbyn difrod i gopïau papur, byddai yn fuddiol sganio'r dogfennau fel bod cofnodion electroneg mewn lle sydd yn ddarostyngedig i fesurau diogelwch TG (e.e. copïau wrth-gefn a.y.y.b.).

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trefniadau Yswiriant gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid creu cofnod electroneg o dystysgrifau yswiriant sydd yn berthnasol i gyfnodau yn y gorffennol lle gallai hawl godi. Byddai sefydlu copïau electroneg yn lleihau'r risg o golli gwybodaeth drwy ddirywiad papur dros flynyddoedd neu hyd yn oed difrod mewn tân neu ddigwyddiad tebyg. Mae peiriant sganio ym meddiant y Gwasanaeth Archwilio a Rheoli Risg ar gyfer creu cofnod electroneg syml.**
- **Dylai'r Uned Yswiriant gwblhau eu adolygiad o'u dulliau tynnu sylw unedau at yr uchafsymiau sydd yn weithredol ar gyfer cadw a trosglwyddo arian parod, gan roi ystyriaeth i anfon copi ar gyfnodau penodol i'r unedau sydd gyda traddodiad o drosiad cymharol uchel o staff.**
- **Dylid adolygu y ddau anghysonder sydd wedi ei amlygu rhwng cofnodion yr Uned Eiddo o adeiladau a'r cofnodion o yswiriant sydd mewn lle er mwyn sicrhau fod yr yswiriant priodol gan y Cyngor.**
- **Dylai'r Uned Eiddo a'r Uned Yswiriant adolygu a ffurfioli eu trefniadau ar gyfer hysbysu am adeiladau a'r anghenion yswiriant ynghyd â'r ymarferiad cysoni cofnodion er mwyn ceisio atal digwyddiad lle na fyddai adeilad wedi ei yswirio yn unol â disgwyliad yr Uned Eiddo.**
- **Dylid sicrhau fod pob eitem o waith atgyweirio sydd â chost yn uwch na £250 yn cael ei gyfeirio i sylw yr Uned Yswiriant fel sydd yn briodol. Mae methiant i wneud hyn yn tanseilio'r premiwm y mae Cyngor Gwynedd yn ei dalu am yswiriant ac yn golygu bod cyllid cynnal a chadw tai cyngor yn cael ei wario ar atgyweirio yswiriadwy.**
- **Dylai'r Uned Yswiriant anelu at ymadael â mesurau perfformio sydd yn mesur agweddau tu allan i reolaeth yr Uned ac a allai gael eu gamddehongli fel adlewyrchiad negyddol neu bositif ar weithrediadau yr Uned.**
- **Dylai'r Uned Yswiriant sefydlu trefniadau ar gyfer meddiannu adborth gan unedau mewnol fel bod safbwynt annibynnol ar agweddau tu allan i'r dangosyddion perfformiad yn cael eu derbyn, a bod rheini yn cael eu defnyddio i wella cysylltiadau a cydweithio ble bod sgôp gwneud hynny.**

# TALIADAU YSGOLION UWCHRADD
## Cyllid

Pwrpas yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau mewn lle ar gyfer y drefn o brosesu taliadau ysgolion uwchradd.

Sgôp yr Archwiliad

Adolygwyd y prosesau ar gyfer mewnbynnu ac awdurdodi'r taliadau, ynghŷd â'r prosesau gwirio a monitro yn dilyn y trosglwyddiad i'r system ariannol a'r taliad gwirioneddol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y drefn sydd wedi ei sefydlu ac yn weithredol ers blynyddoedd bellach yn gweithio'n llwyddiannus gan gwtogi ar y dyblygu gwaith fyddai wedi bod petai angen mewnbynnu i ddwy system reoli ar wahân, sef SIMS ar gyfer ysgolion a Cedar ar gyfer y Cyngor.

Fodd bynnag, nodwyd materion o bryder yn yr archwiliad yma sydd angen sylw i sicrhau nad oes camddefnydd fyddai yn gallu arwain at dwyll.

Mae diffyg data cyffredin rhwng SIMS a Cedar ar gyfer cyflenwyr yn atal cysoni dwys rhwng trafodion y ddwy system. Mae diffyg gwahanu dyletswyddau yn rhan yr Uned Taliadau o'r broses yn wendid y gellir ei gamddefnyddio i dalu cyflenwr anaddas, a ni fyddai hyn yn cael ei adnabod gan unrhyw reolaeth ymchwilio. Yr unig ffordd y byddai hyn yn dod i sylw yw petai'r cyflenwr cywir yn cysylltu â'r ysgol yn ymholi am eu taliad. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn reolaeth addas. Rhan o weithredu prosiect e-Gaffael yn yr ysgolion yw sefydlu cyfeirnodau cyflenwyr Cedar yn SIMS. Teimla'r archwilwyr fod hyn yn rhoi cyfle i addasu'r broses cysoni misol awtomatig.

Nid yw'r archwiliad wedi canfod, na chwaith yw yn honni, twyll yn y maes yma, mae'r risg uwch o dwyll angen sylw.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y prosesau o dalu anfonebau ysgolion uwchradd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae'r argymhellion o fewn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu'r broses yn yr Uned Taliadau ar gyfer taliadau ysgolion uwchradd drwy wirio llofnodion ar ffurflenni pennawd swp a drwy gyflwyno trefn o wahanu dyletswyddau ar gyfer gwirio ac addasu'r sypiau electroneg sydd i'w talu.**
- **Dylid addasu'r broses awtomedig yn SIMS ar gyfer y cysoni misol drwy gyflwyno cyfeirnod y credydwyr at y swm a rhif yr anfoneb, sydd eisoes yn rhan o'r broses.**

# EFFEITHLONRWYDD Y STRWYTHUR CODIO
## Cyllid

Pwrpas yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad oedd adolygu'r prosesau sydd yn ymwneud â chreu codau goddrychol a'r defnydd a wneir o'r codau hynny.

Sgôp yr Archwiliad

Adolygwyd y codau mewn defnydd ar y system ariannol drwy feddiannu copi cyfredol o'r strwythur codio, a chynhyrchu adroddiadau o'r system ariannol yn dangos gweithrediad o'r codau o fewn y strwythur.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y cyfrifoldeb am greu codau newydd wedi ei ganoli yn yr Uned Cyfrifeg, gyda swyddogion penodol gyda'r hawl i wneud hynny. Gwelwyd bod y strwythur wedi ei osod mewn trefn adeiladol, gyda phwrpas y codau wedi eu diffinio yn seiliedig ar eu safle o fewn y strwythur.

Cynhyrchwyd adroddiad yn dangos pa godau sydd wedi eu defnyddio (h.y. sydd â thrafodion yn eu herbyn), ac fel canlyniad yn amlygu pa godau sydd heb eu defnyddio. Amlygwyd 544 côd diddefnydd yn y prawf, gyda 497 ohonynt gyda modd postio yn eu herbyn. Er mwyn rhoi'r ffigyrau yma mewn cyd-destun, 'roedd 5,822 côd yn y strwythur codio pan wnaed yr echdyniad. Mae'r codau yma wedi eu dwyn i sylw'r swyddog sydd yn gyfrifol am gynnal y codau oddi fewn i'r system ariannol.

Gwelwyd bod sgôp i adolygu'r trefniadau pan yn creu codau newydd.

Mae diffyg rheoli ar ba godau sydd ar gael i'w defnyddio yn gallu arwain at gam-godio (boed hynny yn ddamweiniol neu beidio), ac fel canlyniad yn arwain at amhariad ar reolaethau dros wariant, incwm a/neu gyllidebau. Ym marn yr Archwilwyr, mae canlyniadau'r archwiliad yma'n dynodi bod risgiau isel, ond arwyddocaol er hynny, o hyn yn y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn effeithlonrwydd y strwythur codio gan fod rheolaethau mewn lle, ac er bod rhai gwendidau wedi eu hadnabod, mae'r risgiau ymglymedig yn isel. Mae'r argymhellion o fewn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu'r rhestr o godau sydd erioed wedi cael defnydd, eu hanablu a rhoi disgrifiad iddynt sydd yn dynodi eu bod ar gael i ail-glustnodi eu defnydd. Yn ogystal, dylid adolygu'r codau sydd heb gael defnydd yn y tair blynedd diwethaf, a dylid eu hanablu os nad ydynt o ddefnydd pellach.**
- **Dylid sicrhau bod disgrifiad addas a chlir yn cael eu dynodi ar gyfer codau sydd yn cael eu creu o'r newydd er mwyn sicrhau nad oes camddefnydd damweiniol o'r codau hynny.**
- **Dylid sefydlu rhestr o godau ar gyfer gweithgareddau cyffredinol, a sicrhau ei fod ar gael i bob swyddog yn y Cyngor, er mwyn ceisio sicrhau bod trafodion yn cael eu codio yn gywir ac yn gyson ar draws yr Awdurdod.**
- **Fel rhan o broses greu codau, dylid anablu'r codau hynny sydd yn cael eu di-seilio gan y codau newydd.**

## TREFNIADAU CYCHWYN, ADDASIADAU A THERFYNU GWEITHWYR
**Corfforaethol**

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau priodol ar gyfer cychwyn, addasu neu derfynu gweithwyr.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Dewis sampl o weithwyr sydd wedi cychwyn neu orffen gweithio gyda'r Cyngor neu ble mae newid yn eu telerau swydd. Yna, adolygu'r ffurflenni perthnasol (penodiadau newydd TR139, newid telerau swydd TR139a a therfynu staff TR140) ar gyfer y sampl gan sicrhau fod y drefn o dderbyn a gweithredu ar y ffurflenni yn briodol ac yn gyson.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 15 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 8 o'r meysydd hyn, a rheolaeth mewnol boddhaol yng ngweddill y meysydd rheolaeth mewnol.
Ar y cyfan gwelwyd fod trefniadau priodol o fewn yr Unedau Personél i gwblhau a phrosesu'r ffurflenni TR. Fodd bynnag, mae'r drefn o weinyddu'r ffurflenni'n amrywio rhwng yr Unedau (megis rhai rheolwyr yn cwblhau ffurflenni eu hunain, rhai Unedau'n derbyn cadarnhad y rheolwyr cyn hanfon y ffurflenni at y Ddesg Gyflogau a.y.y.b.). Byddai'n fuddiol petai cysondeb yn y drefn o weinyddu ffurflenni rhwng yr Unedau Personél.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau cychwyn, addasiadau a therfynu gweithwyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Cyflogau ymchwilio i gyflog un gweithiwr er mwyn darganfod os yw'r tâl gwyliau yn parhau'n ddyledus.**
- **Dylai'r Rheolwr Cyflogau sicrhau fod swyddogion yr Uned Cyflogau yn hysbysu'r swyddogion personél cyn gynted ag y bo modd os oes unrhyw beth o'i le ar y ffurflenni TR.**
- **Dylid ystyried creu canllaw ar gyfer swyddogion sydd yn gweinyddu'r ffurflenni TR er mwyn sicrhau cysondeb yn ogystal â sicrhau fod pob swyddog yn ymwybodol o'u dyletswyddau.**

# PRYNIANT BWYD A RHEOLAETH STOC
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer archebu, derbyn a thalu am fwyd, a gwirio'r rhestr stoc er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal mewn modd priodol, ei bod yn gyflawn ac yn gyfredol.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymholi a phrofi'r rheolaethau sy'n bodoli ar gyfer archebu, derbyn a thalu am fwyd. Adolygu'r rhestr stoc bresennol i sicrhau bod y manylion yn gyflawn ac yn gyfredol a gwirio, cyn belled y bo modd, os gwneir defnydd mwyaf effeithiol o'r stoc hwn.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod y trefniadau archebu yn amrywio yn sylweddol ar draws yr ysgolion gyda threfniadau rhai yn enghreifftiau cryf o ymarfer da. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliad 852/2004 (Erthygl 5) yr Undeb Ewropeaidd. Darganfuwyd nad oedd sawl archeb wedi eu cwblhau yn llawn ac nad oedd archeb ysgrifenedig ar gyfer rhai ohonynt. Darganfuwyd hefyd bod gorwariant sylweddol yng nghyllideb y Gwasanaeth Arlwyo. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau pryniant bwyd a rheolaeth stoc y Gwasanaeth Arlwyo gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y cogyddion yn mynychu hyfforddiant "Cyfundrefn Ariannol / Gyllidol" y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod y cogyddion yn gwneud archeb ysgrifenedig ar bob achlysur.**
- **Dylid sicrhau bod y cogyddion yn cydymffurfio gyda pholisi rheoli cofnodion y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod y cogyddion yn gofyn i'r cyflenwr osod pris ar yr archeb a sicrhau bod y pris yn cael ei gofnodi ar y ffurflen archeb.**
- **Dylid addasu'r Llyfr Archebion Darparu a Hamdden i gynnwys blwch sydd yn cofnodi'r gost amcangyfrifedig.**
- **Dylid sicrhau bod y cogyddion yn nodi enw a chyfeiriad y cyflenwr ar yr archeb.**
- **Dylai'r Rheolwr Arlwyo ymgynghori gyda'r cyfrifydd perthnasol i geisio darganfod ffordd o wella effeithiolrwydd y gwasanaeth h.y. drwy ymchwilio i wahanol benawdau cyllideb ble mae gorwariant ac ystyried ffyrdd o wneud toriadau neu gynyddu incwm.**

# CANOLFAN HAMDDEN ARFON, CAERNARFON
## Darparu a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau fod rheolaethau mewnol yn bodoli ac yn cael eu gweithredu yng Nghanolfan Hamdden Arfon.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Archwiliwyd sampl o drafodion ariannol yn ôl y cyfriflyfr i'r cofnodion yn y Ganolfan ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/09. Yn ogystal fe adolygwyd y drefn o reoli stoc a chasglu arian o'r peiriannau gwerthu yn y Ganolfan.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 63 o reolaethau mewnol. Gwelwyd bod enghraifft o ymarfer da yn y rhan fwyaf o'r rhain, ond yn ogystal gwelwyd rhai amgylchiadau lle nad oedd y rheolaethau mewnol disgwyliedig yn bodoli, y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud ag amgylchiadau ariannol megis bod swyddogion ddim yn arwyddo taflenni ac yr angen i wahaniaethau dyletswyddau yn y broses archebu / anfonebu.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod dau berson yn llofnodi'r daflen 'Daily Cash Analysis' i gadarnhau bod y swm yn gywir.**
- **Dylid sicrhau bod y slipiau talu i mewn i'r banc yn cael eu harwyddo gan ddau swyddog sydd yn ymglymedig â'r broses cyfrif a bancio arian.**
- **Dylid sicrhau bod y swm sydd ar y TR34 yn cyd-fynd â'r swm sydd ar y slip bancio a bod ail swyddog yn gwirio hyn. Yn ogystal dylid sicrhau bod y TR34 yn cael eu gyrru ymlaen i'w prosesu yn brydlon a chyflawn.**
- **Dylid sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau yn bodoli rhwng codi'r archeb swyddogol, derbyn y nwyddau a thalu'r anfoneb. Dylid adlewyrchu hyn ar y TR 252 (slip godio) lle mae tri swyddog gwahanol i arwyddo'r blychau perthnasol.**
- **Dylid sicrhau bod safle'r rhyngrwyd yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn hysbysebu'r cyhoedd o'r holl weithgareddau ynghyd a'i phrisiau sydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Ymhellach, dylid ystyried rhoi'r hyfforddiant a lefel mynediad perthnasol i'r rheolwr fel ei fod yn gallu gwneud newidiadau pan a lle yn briodol i'r wefan.**
- **Dylid sicrhau bod Gladstone MRM yn dangos yn glir ym mha Ganolfan Hamdden mae'r client wedi derbyn anwythiad fel nad oes risg bod y client am ddefnyddio Ganolfan Hamdden lle nad ydyw wedi derbyn anwythiad.**
- **Dylid rhoi poster i fyny yn yr ystafell ffitrwydd sy'n eithrio atebolrwydd y Cyngor petai digwyddiad sy'n ganlyniad i defnyddio'r ystafell heb anwythiad.**

## CARTREF HENOED CEFN RODYN, DOLGELLAU
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Cartref Cefn Rodyn yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl cofnodion 2008/09 y Cyfriflyfr Ariannol ynghyd â threfniadau rheolaeth y cartref.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau ariannol a diogelwch y Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau ariannol a diogelwch Cefn Rodyn, Dolgellau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod pob unigolyn sydd yn gweithio dros y cyfartaledd o 48awr yr wythnos yn arwyddo'r "Cytundeb i Weithio Dros yr 48 Awr ar Gyfartaledd Cyfyngedig".**
- **Dylid gwirio'r dadansoddiad misol o gyflogau gweithwyr yn drylwyr er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn talu cyflog i unigolyn sydd ddim yn gweithio i'r Cartref ac er mwyn osgoi taliadau dyblyg.**
- **Dylid sicrhau bod archeb swyddogol yn cael ei godi ar gyfer nwyddau a gwneud defnydd o'r cyfrif imprest ar gyfer mân bryniant yn unig, wedi ei gefnogi gyda derbynneb.**
- **Dylai bod swyddog cyfrifol yn gwirio'r cais am arian er mwyn sicrhau ei fod yn briodol cyn prosesu'r taliad.**

# RHAGLEN CYMUNEDAU'N GYNTAF
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd sampl o drafodion a cheisiadau grant yn ymwneud â'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf gan gwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod Cyngor Gwynedd a'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gweithredu yn unol â chanllawiau 2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cynllun Cymunedau'n Gyntaf.
- Fod ceisiadau grant a gyflwynir yn gywir ac unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Fod defnydd priodol o'r cyfrifon imprest.

Archwiliwyd Partneriaethau Marchog, Bowydd a Rhiw ac Abermaw ar gyfer rhan helaeth o'r profion ond fe gwblhawyd profion ar y meysydd cyfrifon imprest ar gyfer pob un o'r Partneriaethau mae Cyngor Gwynedd yn dderbynnydd y grant ar eu cyfer.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad yw'r Partneriaethau yn cydymffurfio yn gyfan gwbl gyda chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y cytundebau rhwng y Partneriaethau a'r Cyngor yn cael eu harwyddo mor fuan â phosib.**
- **Dylid sicrhau bod copïau o gofnodion cyfarfodydd y Bartneriaethau yn cael eu hanfon ymlaen o hyn allan i Tim Rhanbarthol Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn unol â'r canllawiau.**
- **Mae angen mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardaloedd ble nid yw'r iaith yn draddodiadol gryf, yn unol â chanllaw 13.22.**
- **Mae angen gwneud yn siwr bod y Partneriaethau yn gwneud defnydd o logo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â chanllaw 13.20.**
- **Dylid sicrhau fod y slipiau codio pinc yn cael eu defnyddio ar gyfer anfonebau sydd yn ymwneud â grantiau Ewropeaidd a pan yn delio gydag imprest, dylid ysgrifennu 'Ewrop' yn glir ar ben pob cais os yw'r arian a hawlir yn ymwneud â grant Ewropeaidd.**
- **Dylai'r Cyngor lunio canllawiau clir ar gyfer y Bartneriaethau yn nodi sut dylai'r Partneriaethau lunio, cytuno a chofnodi a gosod a monitro unrhyw gontract a wneir ganddynt yn unol â chanllawiau 15.12 a 15.13.**
- **Dylid cadw unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gan y Cynulliad mewn man diogel fel eu bod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg.**
- **Mae angen i un cwmni anfon dogfennau (megis taflenni amser staff neu dderbynebau manwl) i mewn gyda'r anfonebau i gyfiawnhau yr arian maent yn ei hawlio gan Partneriaeth Bowydd a Rhiw.**

# GWEINYDDIAETH A RHEOLAETH HYFFORDDIANT GWYNEDD
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yng ngweinyddiaeth a rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu ar yr agweddau canlynol:

- Fod trefniadau cyflogaeth yn gywir.
- Fod unrhyw daliadau ychwanegol yn ddilys ac wedi eu hawdurdodi'n briodol.
- Fod trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau.
- Fod rheolaeth gyllidebol ddigonol yn bodoli.
- Fod defnydd priodol o'r cyfrifon imprest.
- Fod rheolaeth ar y defnydd a wneir o gerbyd Hyfforddiant Gwynedd.
- Fod trefniadau diogelwch digonol yn yr adeiladau.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion ar 34 o feysydd rheolaeth mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaeth da yn bodoli mewn 29 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth a rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau nad yw TAW yn cael ei hawlio yn ôl ar unrhyw wariant o'r cyfrif imprest heb fod anfoneb/derbynneb TAW yn bodoli i gefnogi'r gwariant.**
- **Dylid hawlio arian imprest yn ôl pan fo 2/3 o'r lefel y cyfrif imprest wedi ei wario neu o leiaf pob mis.**
- **Dylid sicrhau bod y llyfr cofnod siwrneiau yn cael ei gwblhau'n gywir gyda'r milltiredd cywir yn cael eu cofnodi yn y colofnau priodol.**
- **Dylid sicrhau bod yr Uned Fflyd yn anfon adroddiadau tanwydd yn rheolaidd i'r Swyddog Gweinyddol ac Ansawdd er mwyn galluogi'r Swyddog i fonitro'r defnydd a wneir o'r bws yn erbyn y tanwydd a dderbynnir.**

# RHEOLAETHAU YN ERBYN MEDDALWEDD FALEISUS
## Gofal Cwsmer

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Gwerthuso'r rheolaethau sydd mewn lle i ddiogelu isadeiledd y Cyngor rhag difrod gan feddalwedd maleisus ("malware").

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
'Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r pecyn a ddewiswyd gan Wasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor i warchod rhag meddalwedd maleisus gan ystyried i ba raddau yr oedd yn cael ei ddefnyddio'n gyflawn ar y peirannau priodol a pha mor effeithlon yr oedd ei ffurfweddiad.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Ar adeg yr archwiliad 'roedd y Cyngor wrthi'n cyflwyno pecyn gwrth feddalwedd maleisus a oedd newydd ei brynu. Mae gan y pecyn a ddewiswyd enw da ac mae'r rheolaethau a'r monitro sydd ar gael i'r Gwasanaeth TG yn rhai effeithiol ac yn welliant mawr o'i gymharu â'r pecyn blaenorol. Er hynny 'roedd rhai elfennau yn achosi pryder.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o fesurau gwrth feddalwedd maleisus gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau sydd angen sylw. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai polisi gael ei sefydlu a'i weithredu yn ystyried cael cyweiriadau ar gyfer yr holl wendidau sydd mewn dosbarth dros drothwy difrifoldeb penodedig.**
- **Dylai gweinyddwr y meddalwedd gwrth-faleisus gysoni nifer y cyfrifiaduron yn y cyfeiriadur gweithredol a'r nifer a restrwyd yn y meddalwedd ac yng nghonsol SCCM Microsoft, a hefyd archwilio unrhyw anghysondebau arwyddocaol.**
- **Dylai polisi gael ei chynllunio er mwyn prosesu atodiadau e-bost, fel bod pob cynnwys niweidiol yn cael ei adnabod a'i brosesu fel yn briodol ar lefel perimedr y rhwydwaith**

# ANABLEDD DYSGU - GOFAL DYDD PREIFAT
## Gwasnaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod cytundeb priodol rhwng y Cyflenwyr a'r Cyngor, fod rheolaeth gyllidebol ddigonol ar gyfer y gwasanaeth a fod trefn briodol o dalu am nwyddau a gwasanaethau.

Cwmpas yr Archwiliad
Profwyd y rheolaethau perthnasol drwy gadarnhau'r trefniadau presennol ac archwilio'r trafodion cyllidol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a blaenorol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion ar 28 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 21 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Anabledd Dysgu - Gofal Dydd Preifat gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen sicrhau bod cytundebau wedi eu cytuno a'u harwyddo cyn bod cyflenwyr yn cael rhoi gwasanaeth i glientau'r Cyngor.**
- **Mae'n angenrheidiol bod copi o'r archeb yn cael ei yrru i'r darparwr ar bob achlysur.**
- **Mae angen codi archeb cyn derbyn nwyddau/gwasanaeth ar bob achlysur, ac nid ar ôl derbyn anfonneb.**
- **Mae angen sicrhau bod y swyddog sydd yn arwyddo y taflenni swp yn swyddog ardystiedig h.y. gyda'r hawl i wneud hynny.**
- **Mae angen ymgynghori gyda'r gwasanaeth Cyfreithiol i benderfynu os oes hawl gan y Cyngor fynnu eu bod yn gweld datganiadau CRB ac/neu eirda derbyniol gweithwyr y darparwyr, a pha mor aml y dylai hyn gymryd lle.**

# CYNLLUNIO – GORFODAETH
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio yn cydymffurfio gyda Polisi Gorfodi Cynllunio er mwyn sicrhau cadernid ym mhroses rheolaeth datblygu yng Ngwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad yw asesu trefn y Gwasanaeth Cynllunio o weithio tu mewn i Polisi Gorfodi Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Adroddwyd ar y prif wendidau a oedd fel a ganlyn:

- Nid oedd system casglu data Gwasanaeth Gorfodaeth yn gyfredol er mwyn adrodd ar y dangosydd perfformiad craidd.
- Nid oedd trefn weinyddol gadarn mewn lle wrth ymdrin ag achosion/safon ffeiliau Gorfodaeth.
- Nid oedd proffil Gorfodaeth mor gyhoeddedig â phroffil Cynllunio yn gyffredinol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) gogyfer gweinyddu Gwasanaeth Gorfodaeth. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth o'r rhestr achosion yn gywir er mwyn sicrhau cywirdeb dangosydd perfformiad y Gwasanaeth (PLA/005).**
- **Dylid cwblhau manylion mandadol ar daflen cofrestru cwyn pob tro yr agorir achos Gorfodaeth o'r newydd.**
- **Dylid cydymffurfio gyda'r Polisi drwy sicrhau bod Ffurflen Archwilio G□yn yn sail i bob ffeil copi caled achos Gorfodaeth.**
- **Dylid dyddio a rhoi amser ar unrhyw luniau sy'n cael eu tynnu er pwrpas Gorfodaeth.**
- **Dylai'r Gwasanaeth fod yn ofalus wrth annog y cyhoedd i gadw gwyliadwriaeth ar safleoedd.**
- **Dylid gosod cymalau yn y system er mwyn sicrhau bod achosion 'byw' yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, h.y. yn fisol.**

# ALLBWN PROSIECTAU YMCHWIL
## Strategol a Gwella

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth yn gweithredu'n effeithiol a bod y wybodaeth a ddarperir gan yr Uned yn berthnasol, ystyrlon ac yn gywir, fel bod penderfyniadau polisi strategol yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Bydd yr archwiliad yn adolygu trefniadau'r Uned Ymchwil a Gwybodaeth o gynllunio, cwblhau ac yna adolygu'r gwaith ymchwil, yn ogystal â chadarnhau beth yw'r trefniadau ar gyfer hysbysu adrannau'r Cyngor o ganlyniad y gwaith ymchwil, er sicrhau fod yr adroddiad yn derbyn y sylw priodol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 20 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 9 o'r meysydd, a rheolaethau mewnol boddhaol mewn 8 o'r meysydd.

Amlygwyd fod yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth yn gweithredu'n effeithiol, ond mae lle i ffurfioli trefniadau gweithredol yr Uned, megis cadarnhau'r drefn o benderfynu ac yna monitro'r rhaglen waith blynyddol neu greu llawlyfr ar gyfer swyddogion yr Uned.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn Allbwn Prosiectau Ymchwil gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth a'r Uwch Reolwr Cyfeiriad a Strategol gytuno ar drefn o adrodd yn gyfnodol ar gynnydd yn erbyn rhaglen waith yr Uned. Dylid sicrhau fod trefniant clir ar gyfer addasu'r rhaglen waith, yn enwedig pan fo'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth yn dileu prosiectau oddi ar y rhaglen waith.**
- **Dylid defnyddio methodoleg CAMPUS wrth gytuno ar dargedau blynyddol y dangosyddion perfformiad, er mwyn sicrhau bod y targedau'n rhesymol a heriol.**
- **Dylai'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth greu llawlyfr ar gyfer swyddogion yr Uned sydd yn amlinellu'r camau dylid eu dilyn er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith ymchwil.**

# CYNLLUN GORSAF RHEILFFORDD BANGOR
## Ymgynghoriaeth Gwynedd

Bwriad yr Archwiliad

Gofynnwyd i Archwilio Mewnol adolygu trefniadau cynllun 'Moddal (Modal) Cyfnewidfa Trafnidiaeth Cyhoeddus Bangor' yn dilyn amheuon gan y swyddogion o hyfywdra'r prosiect erbyn hyn a'r rhwystredigaeth maent yn ei deimlo o gydweithio gydag un o'r partneriaid.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd adolygu ffeiliau gwaith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth a thrafod y cynllun gyda'r Peiriannydd Grŵp (Gwasanaeth Ymgynghoriaeth) a'r Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd (y client).

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r diffyg gweledol o ddatblygiad yng ngorsaf Bangor ar ôl 9 mlynedd o'r prosiect yn ofidus.

Mae cydnabyddiaeth gan swyddogion Cyngor Gwynedd, na ellir dadlau yn eu herbyn, bod y prosiect hwn wedi bod yn llafurus. Mae hyn er gwaethaf sefydlu amcanion strategol, ac ar adegau yn ystod y prosiect bod cynllun gwaith wedi ei gytuno er mwyn cwblhau'r prosiect.

Mae hyn yn codi amheuon os oedd penderfyniad a pharodrwydd i sicrhau bod y budd cyffredin (creu moddal ymgyfnewidfa) yn disodli'r budd unigol (gwella asedau) ar y cynllun hwn. Efallai mai un rhwystr i lwyddiant y prosiect oedd bod y buddiannau ecwitïol yn y prosiect yn golygu nad oedd neb yn rhannu'r cyfrifoldeb am fethiant (h.y. roedd y cyllid i gyd yn arian grant) na llwyddiant y prosiect (h.y. pwy o'r partneriaid mewn gwirionedd fyddai'n elwa?).

**Barn yr Archwiliad**

**Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu, ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Bydd rhaid i Cyngor Gwynedd sicrhau nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb am y tir a dylid ymgynghori gyda'r Adain Gyfreithiol er mwyn ategu hyn i Network Rail.**
- **Rhaid cael rhaglen wedi ei gytuno gyda'r partneriaid yn fuan neu mae risg y bydd y Grant Trafnidiaeth yn cael ei golli. Ar gyfer 2009/10 mae grant o £1.3 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer y prosiect hwn.**
- **Rhaid arwyddo cytundeb gyda Network Rail i sicrhau bod darpariaeth o faes parcio yng ngorsaf Bangor am amser rhesymol (e.e. 25 mlynedd).**
- **Dylid ystyried gofyn i aelod etholedig fod yn rhan o'r bwrdd prosiect er mwyn rhoi pwysau gwleidyddol i geisio gorffen y cynllun.**

# GORWARIANT YSGOL MAENOFFEREN, BLAENAU FFESTINIOG
## Addysg

Pwrpas yr Archwiliad

Yn unol â chais y Pennaeth Cyllid archwiliwyd rheolaethau cyllidol yn Ysgol Maenofferen ynghyd â gweithdrefnau yr Uned Gyllid Datblygu. Gwnaethpwyd hyn oherwydd rhagwelwyd gorwariant sylweddol erbyn diwedd blwyddyn gyllidol 2008/09.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y trafodion ariannol a wnaethpwyd yn ystod 2005/06, 2006/07, 2007/08 yn ogystal â tymor cyntaf blwyddyn ariannol 2008/09.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw nad oedd y Cyn-Bennaeth yn paratoi adroddiadau monitro priodol yn dangos unrhyw amrywiadau sylweddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer yr Is-bwyllgor Cyllid na'r Corff Llawn yn rheolaidd.

**Barn yr Archwiliad**

**Mae'r archwiliwr o'r farn petai'r Cyn-Bennaeth wedi paratoi adroddiadau monitro priodol yn dangos unrhyw amrywiadau sylweddol ar gyfer yr Isbwyllgor Cyllid/Corff Llawn yn rheolaidd, yna byddai'r gorwariant ar y gwahanol benawdau wedi cael eu hadnabod ac efallai eu cwestiynu ymhellach gan y llywodraethwyr. Ni welwyd tystiolaeth o ymgais gan y llywodraethwyr i dderbyn yr wybodaeth ychwaith. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Corff Llawn neu'r Is-bwyllgor Cyllid fynnu eu bod yn derbyn adroddiadau monitro yn rheolaidd yn unol â'u cyfrifoldebau statudol.**
- **Dylai bod yr Is-bwyllgor Cyllid wedi cyfarfod yn rheolaidd – unwaith y tymor o leiaf.**
- **Dylai'r Uned Cyllid Datblygu o hyn allan gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw gyngor maent yn ei roi i benaethiaid ar osod cyllidebau, fel tystiolaeth i'w hamddiffyn.**
- **Er mwyn cryfhau gweithdrefnau llywodraethu dylid ystyried sefydlu trefn lle bo'r Uned Cyllid Datblygu yn cysylltu yn uniongyrchol â Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol dan sylw yn ogystal â hysbysu'r Pennaeth pan fo gorwariant arwyddocaol ar benawdau cyllidol ysgolion.**
- **Dylai'r Corff Llawn ystyried pob pennawd cyllidol yn ofalus iawn, er mwyn sicrhau fod cyllidebau realistig wedi cael eu gosod cyn iddynt dderbyn y gyllideb.**
- **Dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr arwyddo y ffurflen bod y Corff Llywodraethol yn derbyn y gyllideb yn y cyfarfod o'r Corff Llawn pan gymeradwyir y gyllideb.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion pob cyfarfod o'r Corff Llywodraethol neu Panel Cyllid yn cael eu cadw yn ddiogel a'u bod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg.**